

## **ATODIAD D: GWEITHDREFN DISGYBLU**

### **1. CEFNDIR**

- 1.1 Bwriad y weithdrefn hon yw i helpu cynnal safonau ymddygiad ac i sicrhau tegwch a chysondeb wrth ddelio â honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelodau.
- 1.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl aelodau.

### **2. CYFRINACHEDD**

- 2.1 Ein bwriad yw delio gyda materion disgyblu yn sensitif a gyda pharch at breifatrwydd unigolion sydd ymghlwm â'r mater dan sylw. Dylai pob aelod drin yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth sy'n cael ei gyfathrebu iddynt sy'n ymwneud ag ymchwiliad neu fater disgyblu.
- 2.2 Ni ddylech chi nag unrhywun sydd gyda chi (gan gynnwys tystion) gymryd recordiadau electroneg o unrhyw gyfarfodydd neu wrandawiadau a gynhaliwyd o dan y weithdrefn hon.
- 2.3 Byddwch fel arfer yn cael gwbod enwau tystion sydd yn rhoi tystiolaeth berthnasol i'r mater disgyblu yn eich herbyn, oni bai ein bod yn credu y dylai enw tyst gael ei gadw'n gyfrinachol.

### **3. YMCHWILIADAU**

- 3.1 Cyn unrhyw wrandawriad disgyblu, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater. Pwrpas ymchwiliad yw sefydlu barn deg a chytbwys o'r ffeithiau sydd ynghlwm ag unrhyw gyhuddiadau disgyblu yn eich herbyn cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda gwrandawriad disgyblu.
- 3.2 Unig bwrpas unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau sy'n cael eu cynnal fel rhan o ymchwiliad yw i ganfod y ffeithiau, ni fydd unrhyw gamau disgyblu yn cael eu dilyn heb wrandawriad disgyblu.
- 3.3 Mewn rhai achosion o gamymddwyn honedig, mae'n bosibl y bydd angen i ni atal eich aelodaeth dros dro tra ein bod yn cynnal yr ymchwiliad neu'r weithdrefn ddisgyblu (neu'r ddau). Tra eich bod wedi'ch hatal, ni ddylech gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau sydd wedi'u trefnu gan YesCymru, oni bai ein bod wedi caniatáu hynny. Dydy atal aelodaeth dros dro ddim yn cael ei ystyried yn gam disgyblu.

### **4. CYHUDDIADAU TROSEDDOL**

- 4.1 Os yw eich ymddygiad yn destun ymchwiliad, cyhuddiad, neu euogfarn troseddol, byddwn yn ymchwilio i'r ffeithiau cyn penderfynu a ddylid cymryd camau disgyblu ffurfiol.
- 4.2 Ni fyddwn fel arfer yn aros am ganlyniad unrhyw erlyniad cyn penderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd. Ble rydych yn methu, neu wedi cael eich cynghori i beidio, mynychu gwrandawriad disgyblu neu ddweud unrhywbeth am fater troseddol cyfredol, efallai y bydd angen i ni wneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

## 5. Y GWRANDAWIAD

- 5.1 Byddwn yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i chi ynglŷn â'r gwrandawriad, gan gynnwys gwybodaeth ddigonol am y camymddwyn honedig, a'r canlyniadau posibl, er mwyn eich helpu i baratoi. Byddwch fel arfer yn cael copïau o ddogfennau perthnasol a datganiadau gan dystion.
- 5.2 Cewch ddod â chydymaith gyda chi i'r gwrandawriad.
- 5.3 Dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os oes unrhyw dystion perthnasol yr hoffech iddynt ddod i'r gwrandawriad neu unrhyw ddogfennaeth neu dystiolaeth arall yr hoffech i ni ei ystyried.
- 5.4 Bydd y gwrandawriad yn cael ei gadeirio gan un o swyddogion cyflogedig YesCymru neu aelod o'r Pwyllgor Canolog. Yn ystod y gwrandawriad disgyblu, byddwn yn mynd drwy'r cyhuddiadau yn eich herbyn a'r dystiolaeth sydd wedi'i gasglu. Byddwch yn medru ymateb a chyflwyno tystiolaeth eich hun. Gall eich cydymaith wneud sylwadau i ni a gofyn cwestiynau, ond ni all eich cydymaith ofyn cwestiynau ar eich rhan.
- 5.5 Gallwch ofyn i dystion perthnasol ymddangos yn y gwrandawriad, dim ond eich bod yn rhoi digon o rybudd o flaen llaw i ni allu trefnu eu presenoldeb. Bydd gennych yr hawl i ymateb i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei roi gan dyst.
- 5.6 Gallwn ohirio'r gwrandawriad disgyblu os oes angen i ni ymchwilio i unrhyw beth ymhellach, gan gynnwys ail-gyfweld tystion yn dilyn unrhyw bwyntiau newydd a godwyd yn y gwrandawriad. Byddwn yn rhoi cyfle rhesymol i chi ystyried unrhyw wybodaeth newydd cyn bod y gwrandawriad yn ail-gynnull.
- 5.7 Gwneir penderfyniad terfynol gan y Pwyllgor Canolog mewn cyfarfod wedi ei gyfansoddi'n briodol. Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig o'n penderfyniad, fel arfer o fewn 7 diwrnod i'r gwrandawriad.
- 5.8 Os bydd aelod o'r Pwyllgor Canolog yn wynebu camau disgyblu, ni fyddant yn gallu cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Canolog tra bo'r mater yn cael ei drafod a byddai angen iddynt adael y cyfarfod.

## 6. CAMAU DISGYBLU A THERFYNU

- 6.1 Fel arfer, y cosbau am gamymddwyn yw:
  - (a) **Cam 1: Rhybudd ysgrifenedig.** Ar gyfer mân droseddau camymddwyn a phan nad oes unrhyw rybuddion ysgrifenedig eraill yn weithredol ar eich cofnod, gallwch dderbyn rhybudd ysgrifenedig. Bydd yn parhau'n weithredol am chwe mis.
  - (b) **Cam 2: Terfynu aelodaeth.** Ar gyfer troseddau camymddwyn difrifol neu am gamymddwyn pellach ble mae rhybudd ysgrifenedig gweithredol ar eich cofnod, gall eich aelodaeth gael ei derfynu. Mae enghreifftiau o gamymddwyn difrifol wedi'u nodi isod (para. 7.1).

Gallwn hefyd ystyried sancsiynau eraill heblaw terfynu, gan gynnwys atal am gyfnod hirach, cyfyngiadau ar eich aelodaeth, eich tynnu oddi ar bwyllgor neu o ryw rôl, ymestyn rhybudd ysgrifenedig gyda chyfnod adolygu pellach a/neu rhybudd ysgrifenedig terfynol.

- 6.2 Os ydy eich aelodaeth yn cael ei derfynu, gallwn hefyd roi cyfyngiad amser (o hyd at 12 mis o ddyddiad terfynu eich aelodaeth) ar eich gallu i ail-ymgeisio i fod yn aelod o YesCymru. Gallwn hefyd osod amodau penodol (y bydd angen i chi eu bodloni yn gyntaf) cyn y gallwch ail-ymgeisio am aelodaeth o YesCymru yn y dyfodol.

## **7. CAMYMDDWYN DIFRIFOL**

- 7.1 Mae camymddwyn difrifol yn fater difrifol ac yn cynnwys camymddwyn sydd, yn ein barn ni, yn debygol o ragfarnu ein sefydliad neu'n enw da neu yn niweidio, yn anadferadwy, y berthynas a'r ymddiriedaeth rhyngddoch chi a YesCymru. Mae'r canlynol yn enghreifftiau (ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr) o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol fel arfer:
- (a) torri rheolau YesCymru (fel y'i cyhoeddwyd o bryd i'w gilydd) yn ddifrifol;
  - (b) dwyn anfri ar YesCymru;
  - (c) camddefnydd difrifol o enw YesCymru;
  - (d) camddefnydd difrifol, difrod, lladrata neu dwyll ynghlwm ag eiddo YesCymru;
  - (e) gwahaniaethu, erledigaeth neu aflonyddu anghyfreithlon tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth o YesCymru;
  - (f) trais corfforol tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth o YesCymru;
  - (g) torri rheolau iechyd a diogelwch yn ddifrifol tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth o YesCymru;
  - (h) defnyddio neu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â materion YesCymru neu eich aelodaeth o YesCymru, heb awdurdod; neu
  - (i) esgeulustod difrifol yn eich dyletswyddau tra'n ddeiliad swydd YesCymru.

## **8. APELIADAU**

- 8.1 Os ydych yn teimlo bod camau disgyblu a gymerwyd yn eich herbyn yn anghywir neu'n anghyfiawn, dylech ddanfôn apêl yn ysgrifenedig, yn nodi eich rhesymau llawn dros apelio, at [apeliadau@yes.cymru](mailto:apeliadau@yes.cymru) o fewn 7 diwrnod o dderbyn y penderfyniad.
- 8.2 Bydd apêl yn cael ei drin yn ddiuedd gan Bwyllgor Apêl, ni fydd aelod o'r Pwyllgor Canolog ar y Pwyllgor Apêl. Cewch ddod â chydymaith gyda chi i'r gwrandawriad apêl.
- 8.3 Yn dilyn y gwrandawriad apêl, gallwn:
- (A) gadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol;
  - (B) diddymu'r penderfyniad gwreiddiol; neu
  - (C) roi cosb wahanol yn ei lle.
- 8.4 Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig o'n penderfyniad terfynol cyn gynted â phosibl, a hynny fel arfer o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y gwrandawriad apêl. Nid oes hawl bellach i apelio.